COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Mawrth 13eg, 2019 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Alun Jones (Cadeirydd), O. Hefin Roberts (Is-gadeirydd), Angharad Correia-Martins, G. Ian Evans, Edward O. Griffith, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, William B. Williams, Cyng. Dewi W. Roberts (Aelod Lleol – Sylwebydd)

YMDDIHEURIADAU

Wyn Griffiths, Cyng. John B. Hughes (Aelod Lleol – Sylwebydd)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig Mrs. Meinir Jones, O Ddrws i Ddrws – gweler cofnod 5c. Materion yn Codi isod.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Cynghorwyr Robert M. Jones a Catherine Ll. Morris fuddiant yng nghais C19/0119/39/LL - Trosi adeilad allanol yn anecs hunan gynhaliol - Cefn, Llanengan, oherwydd bod RMJ yn gymydog a CLLM yn rhedeg busnes tai gwyliau. Datganodd Cynghorydd Dylan Llwyd fuddiant yng nghais C19/0182/39/LL - Estyniad unllawr ochr yn 3 Stad Cornwall, Mynytho, oherwydd ei fod ar bwyllgorau â'r ymgeisydd. Gadawont y cyfarfod pan drafodwyd y ceisiadau.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Chwefror 13eg, 2019 yn gywir.

3. **EITEMAU BRYS (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

Ni dderbyniwyd dim.

4. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C19/0119/39/LL	Trosi adeilad allanol yn anecs hunan gynhaliol – Cefn, Llanengan **– Cefnogir [Datgan Diddordeb – RMJ a CLlM]**
C19/0128/39/LL	Estyniad deulawr i flaen yr eiddo ac addasiadau i'r ffenestri gromen blaen presennol – Faircross, Lôn Rhoslyn, Aber-soch **– Cefnogir**
C19/0150/39/LL	Estyniad unllawr ochr **-** 3 Stad Cornwall, Mynytho **- Cefnogir [Datgan Diddordeb - DLl]**
C19/0182/39/LL	Estyniad unllawr ar flaen eiddo **–** Tŷ Newydd, Mynytho **– Cefnogir**
C19/0185/39/LL	Diwygio Amod 3 ar ganiatâd cynllunio C16/1578/39/LL er adeiladu'r datblygiad, yn unol â chynllun diwygiedig – Glenville, Aber-soch –

Gwrthwynebir oherwydd gosodir amod am reswm. Mynegwyd pryder am uchder y datblygiad, yn arbennig gan ei fod yn drillawr ac y codwyd lefel y tir yn sylweddol cyn dechrau adeiladu – cysylltwyd â'r Adran Gynllunio eisoes am hyn ond ni dderbyniwyd ateb.

5. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**
Derbyniwyd gohebiaeth yn gofyn a yw'r Cyngor am barhau â Chynllun Partneriaethau 2019 - 2021; cadarnhawyd y gwneir hynny.

b) **13. Gohebiaeth: ch) Menter Môn – Wi-fi Cymunedol Cyhoeddus**
Derbyniwyd gohebiaeth yn nodi costau blynyddol ail flwyddyn y cynllun - £2290.00, swm sy'n sylweddol uwch na'r hyn a amcanwyd. Deallwyd y teimla aelodau'r Gymdeithas Masnachwyr ei fod yn rhy gostus ac, o ganlyniad, na ddymunir parhau â'r cynllun; penderfynwyd trefnu cyfarfod cyhoeddus i'w drafod ymhellach a gwahodd y ddau swyddog i'w fynychu.

[Gadawodd Cyng. C.Ll.Morris y cyfarfod.]

c) **13. Gohebiaeth: c) O Ddrws i Ddrws – Cais am Ariannu Gwasanaeth i Drigolion Plwyf Llanengan**
Croesawyd Meinir Jones, Swyddog O Ddrws i Ddrws, atom i egluro'r bwriad o drefnu gwasanaeth cludo cleifion o'r gymuned i Feddygfa Rhydbach; bu'r Cynllun Peilot a drefnwyd am dri mis y llynedd yn fethiant, gan na chafodd ei hysbysu'n iawn. Gofynnwyd am gyfraniad o fil o bunnoedd yn y llythyr gwreiddiol ond, penderfynwyd y byddai £500.00 yn ddigonol, ynghyd â chodi £2.00 y pen ar y cleifion; cytunwyd â'r cais. Diolchwyd i Mrs. Jones am roi o'i hamser i ddod atom i egluro'r cynllun.

ch) **13. Gohebiaeth: e) Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – Wythnos Recriwtio**
Ni dderbyniwyd ateb.

7. **MYNWENT –** Nid oedd dim i'w drafod.

8. **CAEAU CHWARAE**

a) **Offer Newydd**

i) ***Cae Aber-soch***
Derbyniwyd adroddiad yn dilyn gosod yr offer a'r anfoneb (£14941.89) oddi wrth HAGS-SMP ond, sylweddolwyd y codwyd am sgip, storfa a ffens ddiogelwch (£947.00) er na wnaed hynny – 'ffens blastig oren' a ddefnyddiwyd. O ganlyniad i dynnu sylw at hyn, rhoddwyd credyd o £500.00 – gweler 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod – ar ôl egluro y storiwyd yr offer mewn storfa ddiogel.

ii) ***Trac Beicio Mynytho***
Cyfarfu Colin Averis a Neil Roberts, Rheolwr Gweithredu Arwynebu, â DLl a'r Clerc heddiw ac ymddiheurodd yr olaf nad ymwelodd â'r safle ynghynt – beiodd Caloo am hynny. Ar ôl asesu a thrafodaeth, penderfynwyd yr

anfonid amcanbris o'r newydd a gohirio gwneud y gwaith tan fis Mai, gan obeithio y byddai'r tywydd wedi cynhesu a'r safle wedi sychu erbyn hynny.

b) **Archwilio Coed yr Allt a Chae Chwarae Aber-soch**
Cynhaliwyd yr archwiliad ond, ni dderbyniwyd yr adroddiad hyd yma; gofynnwyd am yr anfoneb er mwyn ei thalu cyn diwedd y flwyddyn ariannol – gweler 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

c) **Paentio'r Offer**
Ni ymatebodd y contractwr i'r llythyr a anfonwyd ato parthed paentio arhosfan bws Parciau Mynytho – na derbyn ei anfoneb.

9. **CYFRIFON**

a) **Archwiliad Ariannol 2018 – 2019**
Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi mai'r flwyddyn ariannol gyfredol fydd yr olaf i BDO ei harchwilio. Ni dderbyniwyd gohebiaeth parthed archwiliad eleni eto.

b) **Meinciau Sarn Bach a Bwlchtocyn**
Derbyniwyd e-bost oddi wrth drigolyn yn pryderu am gyflwr mainc Bwlchtocyn - fe'i tynnwyd erbyn hyn gan EWR (diolchwyd iddo). O ganlyniad, penderfynwyd archebu dwy fainc (Elwood £609.97 + TAW) oddi wrth gwmni Glasdon ar ôl cymharu prisiau gwahanol gwmnïau. Ymddiheurodd Cyng. Dewi W. Roberts nad anfonodd e-bost a dderbyniodd oddi wrth ymwelydd â'r ardal a ddymunai osod mainc er cof am ei Mam. Awgrymwyd cysylltu â hi i ofyn a fyddai'n ystyried prynu neu gyfrannu at un ohonynt.

c) **Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2019 – 2020**
Derbyniwyd copi o'r uchod, yn unol â gofynion Adran 147 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 sy'n cynnwys cynigion a ddaw i rym yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mynegodd yr Aelodau y daliant at eu penderfyniad na fyddant yn derbyn y £150.00 a bennwyd fel cyfraniad at eu costau a'u treuliau – datganwyd hynny drwy arwyddo ffurflen yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor y llynedd.

ch) **Awgrymiadau'r Is-bwyllgor Ariannol**
Gweler 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

d) **Cofnodion Cyfarfod Rhagfyr 12fed, 2018 – 16. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau**
Sylweddolodd y Clerc wrth wirio taliadau â'r Datganiad Banc fod y swm a dalwyd i Ganolfan Cymdeithasol Llanengan yn anghywir yng nghofnod d) yr uchod (£130.00 yn hytrach na £135.00 – Rh/S 002194) ac y cynhwyswyd a nodi'r swm anghywir yn g) (£416.00 yn hytrach na £413.55 – Rh/S 002199) fel taliad i Swyddfa Archwilio Cymru – ni thalwyd hwnnw tan fis Chwefror o ganlyniad i wirio'r ffi â BDO.

10. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Materion yn y Gymuned/Ymholiadau Cynllunio/Gorfodaeth**
Ni dderbyniwyd ymateb i'r holl ymholiadau a wnaed dros y misoedd diwethaf.

b) **Cymorth Cynllunio Cymru**
Cofrestrwyd ACM, DLl a'r Clerc fynychu'r hyfforddiant (Cyflwyniad i Gynllunio) ym Mangor nos Fercher, Mawrth 20fed – gweler 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

c) **Apêl Bryn Rhedyn, Bwlchtocyn**
Anfonwyd sylwadau'r Cyngor eisoes.

ch) **Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn – Canllawiau Cynllunio Atodol: Ailadeiladu Tai a Throsi Adeiladau yng Nghefn Gwlad ac Ymrwymiadau Cynllunio**
Ymatebir i'r uchod erbyn Ebrill 4ydd – angen pwysleisio mai Pentref Gwledig ddylai Llanengan fod nid Clwstwr.

11. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Bin Baw Ci ym Marchros**
Ail-anfonwyd y cais yn gofyn i'r Adain Fwrdeistrefol osod bin newydd/ ychwanegol yn y maes parcio, gan mai dim ond un o rai'r Cyngor hwn sy'n weddill.

b) **Enw Stad Cornwall, Mynytho**
Ni dderbyniwyd copi o'r ohebiaeth a dderbyniodd yr Aelod Lleol parthed yr uchod.

c) **Ffyrdd Aber-soch – Gorchymyn Cau'r Ffordd Ddi-ddosbarth a adwaenir fel Cae Du, Aber-soch) (Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro) 2019**
Cwblhawyd y gwaith ar wahân i baentio'r llinellau melyn a'r arwyddion ffordd.

ch) **Cais am Olau Stryd yn Stad Sant Tudwal, Mynytho**
Ni dderbyniwyd ymateb i'r cais yn gofyn i Gyngor Gwynedd a fyddai modd gosod lamp stryd ar yr uchod.

d) **Biniau Halen**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach.

dd) **Adolygiad Cludiant**
Dosbarthwyd copi o'r holiadur i rai o ddefnyddwyr rheolaidd y bysiau yn y gymuned – Ebrill 30ain yw'r dyddiad cau.

e) **Parcio o flaen Ysgol Foel Gron**
Adroddodd Cyng. Dylan Llwyd, cynrychiolydd y Cyngor ar y Corff Llywodraethol, y pryderir am y parcio tu allan i'r ysgol ar ddiwedd y dydd. Gofynnwyd tybed a fyddai modd creu maes parcio o flaen yr ysgol ar Lain y Pentref. Yn dilyn derbyn ymateb oddi wrth Dylan Wynn Jones, Rheolwr Uned Traffig, Prosiectau a Gwaith Stryd, ac Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg, deallwyd na fodola cyllideb barhaol bellach i gyllido gwelliannau i ysgolion ac y byddai'n anodd adeiladu rhywbeth ar dir comin – ymwybodol o hynny. Awgrymwyd cysylltu â Lynette Baston-Jones, Ymgynghorydd Iechyd, Diogelwch a Lles, i gael cymorth llunio asesiad risg a gosod mesurau. Adroddwyd y cynhelid system un ffordd ar ddechrau a diwedd diwrnod ysgol yn y gorffennol ac, o ganlyniad, awgrymwyd y dylid ailddechrau hynny.

f) **Rhaglen Waith mis Mawrth**
Traenio ger Bwlch, Llanengan.

12. **MATERION HAWLIAU TRAMWY**

a) **Torri'r Llwybrau**
Ni ymatebodd Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, i'r cynnig o ymweld ag o ym Mhwllheli i drafod ail-gategoreiddio'r llwybrau.

b) **Llwybr Shanty, Pen Bennar**
Derbyniwyd e-bost oddi wrth Aelod o'r Cyngor yn mynegi pryder am gyflwr y llwybr o ganlyniad i'r gwaith datblygu ar yr uchod – fe'i harchwilir.

c) **Llwybr y Morwyr (Rhif 42 a 51)**
Hysbyswyd yr Adran Hawliau Tramwy fod nant rhwng lôn Pant y Wennol a Llwybr 51 wedi gorlifo rhyw ddwy neu dair llath yn uwch na'r ffoes ac, o ganlyniad, mae'n rhedeg ar y llwybr yn hytrach na'r ffoes. Bwriadai DWO ymweld yn fuan wedyn ond, ni dderbyniwyd ymateb pellach.

13. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**
i) ***Bwletin mis Mawrth***
Nid oedd dim o bwys i'w argraffu y tro hwn.
ii) ***Aelodaeth 2019 – 2020***
Penderfynwyd parhau â'r aelodaeth er y cynyddodd y gost unwaith yn rhagor – £532.00 yn seiliedig ar 1665 o anheddau trethadwy yn ôl £0.320c yr annedd.
iii) ***Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor***
Fe'i cynhaliwyd ym Mhwllheli neithiwr – anghofiwyd ymddiheuro.

.

b) **Llywodraeth Cymru – Cefnogaeth Ariannu ar gael 2019 – 2020**
Gwybodaeth am yr uchod; dyddiad cau yw dydd Gwener, Ebrill 12fed.

c) **Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru – Arolwg Cymru Gyfan – Gwasanaethau Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu 2019**
Arolwg ddaw i ben ar Fawrth 31ain ar gyfer unrhyw un a ddefnyddiodd y Gwasanaeth uchod yn ystod y chwe mis diwethaf.

ch) **Ysgol Sarn Bach**
Cerdyn diolch am y goeden Nadolig oddi wrth y disgyblion.

d) **Clwb Moduro Harlech a'r Cylch – Rali Goffa Merfyn Hughes/Rali Llŷn**
Hysbyseb, er gwybodaeth, y cynhelir yr uchod nos Sadwrn, Mawrth 23ain a bore Sul, Mawrth 24ain.

dd) **Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig – Odyn Galch, Lôn Pen Cei, Aber-soch**
Ailgysylltwyd i holi a ddaethpwyd o hyd i gytundeb ar gyfer yr Odyn Galch – na oedd yr ateb. Ychwanegwyd y gwnaed un a drosglwyddodd cyfrifoldeb o'r ramp, y cytiau bach a'r Odyn Galch i'r gymuned leol ond, yn anffodus, nid oes copi ar ffeil yn yr

Adran Forwrol. Penderfynwyd cysylltu eto i ofyn i'r Adran dorri'r tyfiant, gan mai'r Cyngor yw'r perchennog ers 1996.

e) **Jill Evans, Aelod Ewropeaidd/Cadeirydd CND Cymru – Dim Claddu Gwastraff Niwclear yng Nghymru**
Cais am gefnogaeth i'r ymgyrch ymwrthod â chladdu gwastraff niwclear yng Nghymru a throsglwyddir yr wybodaeth i Lywodraeth Cymru mewn ymatebiad i'w ymgynghoriad cenedlaethol; penderfynwyd cefnogi'r cais. Nodir petai cymunedau yn cytuno â'i gladdu fe'u gwobrwyid yn ariannol.

14. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C18/1085/39/LL	Dymchwel allandy ac adeiladu dau estyniad, ynghyd ag addasiadau mewnol ac allanol – Fferm Corn, Cilan **– Caniatawyd ag amodau**
C18/1141/39/LL	Gosod dwy ffenestr gromen cefn – 68 Cae Du, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C18/1149/39/LL	Dyluniad diwygiedig i gwt glan môr (gostwng uchder crib y to) yn dilyn gwrthod cais i gadw datblygiad di-ganiatâd a adeiladwyd yn dilyn caniatáu cais C18/0048/39/LL **–** Cwt Glan Môr 15, Borth Fawr, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C18/1193/39/LL	Estyniad modurdy cysylltiedig **–** 11 Afon y Felin, Lôn Garmon, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C18/1199/39/LL	Estyniad to gwastad blaen a chefn, feranda a mynedfa gerbydol newydd **–** Sŵn-y-Môr, Bwlchtocyn – **Caniatawyd ag amodau**
C19/0022/39/AC	Rhyddhau Amodau 6 (lle storio dros y gaeaf) ac 8 (manylion tirlunio) o Ganiatâd Cynllunio C17/0967/39/LL **-** Ty'n y Cae, Llangian - **Caniatawyd yn ddiamodol**
C19/0024/39/LL	Diwygio Amod 2 ar Ganiatâd C17/0494/39/LL er cynnwys dwy ffenestr gromen ar yr edrychiad dwyreiniol a ffenestr llawr cyntaf yn y talcen gogleddol **–** 16 Lôn Cernyw, Bwlchtocyn – **Caniatawyd ag amodau**
C19/0025/39/LL	Newid defnydd adeilad amaethyddol i ganiatáu ei ddefnyddio fel adeilad amaethyddol a storio offer o safle glampio dros y gaeaf, ynghyd â chreu llawr mezzanine ar gyfer ardal storio **–** Ty'n y Cae, Llangian – **Caniatawyd ag amodau**
C19/0028/39/LL	Gosod tanc LPG tanddaearol **–** 16 Lôn Cernyw, Bwlchtocyn – **Caniatawyd ag amodau**
C19/0111/39/LL	Codi modurdy at ochr yr eiddo â balconi uwchben **–** Tegfryn, Bwlchtocyn – **Caniatawyd ag amodau**

15. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Mawrth (Rh/S 002212) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Hags-Smp Ltd. – £14341.90 (Rh/S 002210 – Offer Newydd Cae Chwarae Aber-soch)
b) Casglwr Trethi – £5.14 (Rh/S 002211 – Talu Wrth Ennill)
c) Dawns i Bawb – £100.00 (Rh/S 002213 – Cyfraniad)
ch) Theatr Bara Caws – £100.00 (Rh/S 002214 – Cyfraniad)
d) Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Eryri – £100.00 (Rh/S 002215 – Cyfraniad)
dd) Ymddiriedolaeth Gofalwyr – £100.00 (Rh/S 002216 – Cyfraniad)

e) Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen – £100.00 (Rh/S 002217 – Cyfraniad)
f) Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro – £100.00 (Rh/S 002218 – Cyfraniad)
ff) Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy – £200.00 (Rh/S 002219 – Cyfraniad)
g) Un Llais Cymru – £532.00 (Rh/S 002220 – Aelodaeth 2019)
ng) TMN Arboriculture – £660.00 (Rh/S 002221 – Archwiliad Coed yr Allt a Chae Chwarae Aber-soch)
h) Cymorth Cynllunio Cymru – £105.00 (Hyfforddiant Cynllunio)
i) O Ddrws i Ddrws – £500.00 (Cyfraniad at Fws i Feddygfa Rhydbach)
l) Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro – £100.00 (Rh/S 002224 – Cyfraniad)
ll) E-on – £18.91 (D/U – Trydan Toiledau Lôn Traeth)

Derbyniadau

a) Toiledau – £30.50 (£10.20, £13.20 a £7.10 – Arian Mynediad)

16. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Ebrill 10fed, 2019 am saith o'r gloch